**Enw'r Ysgol: Penybryn, Bethesda**

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- Y disgyblion yn gallu defnyddio sgiliau ymholi ac ymchwilio i ddarganfod gwybodaeth benodol.
- Grwpiau o ddisgyblio yn trafod a rhannu syniadau wrth weithio ar dasgau.
- Y disgyblion yn gallu mynegi barn a rhoi rhesymau wrth drafod cwestiynau.
- Y disgyblion yn cael cyfle i weithio ar dasgau medrau meddwl er mwyn ymgyfarwyddo a geirfa a gwybodaeth newydd.
- Grwpiau o blant yn cyflwyno gwaith gorffenedig er mwyn ateb y cwestiwn mawr ar ddiwedd yr uned waith.

**Materion i gael sylw**

Pawb i fewnfudo gofynion y fframwaith llythrennedd i'w cynllunio.
Ysgrifennu estynedig yn cael sylw yn y maes.

| Rhagorol | | Da | x | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Y pwnc yn cael ei ddysgu yn wythnosol – awr yr wythnos.
- Y cyd-lynydd yn ogystal ag athrawon eraill wedi derbyn hyfforddiant yn ystod HMS clwstwr ac wedi adrodd yn ol yn ystod cyfarfodydd staff.
- Y rhaglen astudio wedi ei rannu yn ofalus fel bod y disgyblion yn cael cyfle i astudio agwedd ar Gristnogaeth, un o grefyddau eraill y byd yn ogystal ag ymdrin a chwestiynau mawr y byd ym mhob blwyddyn.
- Cwestiwn mawr yn cael ei osod ar ddechrau uned ac yna 5/6 is-gwestiwn er mwyn ymchwilio i feysydd penodol.
- Amrywiaeth o adnoddau dysgu yn cael eu defnyddio – llyfrau cyfeiriol, arteffactau crefyddol, ymweliada i leoliad a gan ymwelwyr, y we, CD Rom, clipiau fidio a.y.y.b
- Y disgyblion yn gallu trafod rhai arweinwyr crefyddol e.e. Martin Luther King, Y Fam Theresa, elusennau e.e. Operation Christmas Child, Oxfam, agweddau ar grefyddau eraill e.e. Iddewiaeth, Sikaeth, Islam yn hydreus.
- y defnydd o fedrau meddwl yn y maes yn hybu ymlyniad a dealltwriaeth pawb yn y gwersi.

**Materion i gael sylw**

**FfLLaRh o fewn y maes.**

| Rhagorol | x | Da | | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

| Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol? | Ydy | Nac ydy |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Yr holl ddisgyblion yn addoli ar y cyd yn ddyddiol.
- Un dosbarth yn gyfrifol am gymryd un gwasanaeth yn wythnosol.
- Gwasanaethau amrywiol o ran cynnwys – moesoldeb, Storiau Crefyddol, Digwyddiadau'r Flwyddyn, digwyddiadau perthnasol, cyfredol.
- gwahodd ymwelwyr yn gyson i gyflwyno neges grefyddol/ ysbrydol.
- Gwasanaethau amrywiol o ran cyflwyniad – darllen stori, cyflwyno gwybodaeth, actio drama
- cyfleoedd i ganu mawl drwy ganeuon amrywiol

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**
**Rhoi mwy o sylw i gyfleoedd i fyfyrio yn dilyn y cyflwyniadau.**

| Rhagorol | | Da | x | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Ceren Lloyd (Pennaeth)

Dyddiad: 13/1/13